

DULL DIOGEL:

GWIRIADAU AGOR A CHAU



Mae'n hanfodol eich bod chi a'ch staff yn cyflawni gwiriadau penodol bob tro y byddwch yn agor a chau. Mae hyn yn eich helpu i gynnal y safonau sylfaenol sy'n angenrheidiol i sicrhau bod eich busnes yn paratoi bwyd yn ddiogel.

GWIRIADAU AGOR

Dylech gynnal y gwiriadau hyn ar ddechrau'r dydd. Gallwch hefyd ychwanegu eich gwiriadau eich hun at y rhestr.

Mae eich offer arddangos bwyd oer, eich oergelloedd a'ch rhewgelloedd yn gweithio'n iawn.

Mae eich offer eraill (e.e. popty/peiriant cadw bwyd yn boeth) yn gweithio'n iawn.

Mae staff yn iach i weithio ac yn gwisgo dillad gwaith glân.

Mae ardaloedd paratoi bwyd yn lân ac wedi'u diheintio (arwynebau gwaith, offer, cyfarpar ac ati)

Nid oes unrhyw dystiolaeth o weithgarwch plâu mewn unrhyw ardal.

Mae digon o ddeunyddiau golchi dwylo a glanhau ar gael (sebon, tywelion papur, glanweithydd ac ati).

Mae dŵr tap poeth ar gael ym mhob sinc a basn golchi dwylo.

Mae'r rôb tymheredd yn gweithio'n iawn ac mae wipis i lanhau'r rôb ar gael.

Mae'r wybodaeth am alergenau yn gywir ar gyfer pob eitem sydd ar werth.

Mae'r siop yn 'addas i fasnachu', h.y. glân a thaclus, silffoedd wedi'u stocio ac ati.

GWIRIADAU CAU

Dylech gynnal y gwiriadau hyn ar ddiwedd y dydd. Gallwch hefyd ychwanegu eich gwiriadau eich hun at y rhestr.

Rydych wedi tynnu unrhyw fwyd sydd ar ei ddyddiad 'defnyddio erbyn', neu unrhyw fwyd sydd wedi'i ddifrodi neu sy'n anaddas (e.e. bwyd sydd wedi llwydo) oddi ar y silffoedd.

Rydych wedi taflu unrhyw fwyd sydd wedi'i dynnu oddi ar y silffoedd yn gywir neu wedi'i labelu fel 'ddim i'w werthu' a'i gadw mewn ardal ar wahân (os yw'n cael ei ddychwelyd i'r cyflenwr).

Rydych chi wedi gorchuddio pob darn o fwyd, wedi labelu'r bwyd a'i roi yn yr oergell/y rhewgell (os oes angen).

Rydych chi wedi glanhau a diheintio offer glanhau budr neu wedi'u taflu i ffwrdd.

Rydych chi wedi cael gwared ar wastraff ac wedi gosod bagiau newydd yn y biniau.

Rydych chi wedi glanhau a diheintio ardaloedd paratoi bwyd (arwynebau gwaith, offer, cyfarpar ac ati).

Rydych chi wedi brwsio a glanhau'r lloriau.

Rydych chi wedi cofnodi'r gwiriadau 'Profi'.



Caiff y gwiriadau agor a chau eu rhestru yn y dyddiadur hefyd.